



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru

### Penodi Cadeirydd

**Tâl** - Mae'r swydd hon yn ddigyflog ond bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus hawl i gael tâl cydnabyddiaeth o £337 y dydd.

**Ymrwymiad amser** - o leiaf 30 diwrnod bob blwyddyn

**Cyfnod** - Bydd y penodiad am gyfnod cychwynnol o 4 blynedd (o fis Gorffennaf 2019)

**Lleoliad** - Caerdydd

Rydym yn chwilio am Gadeirydd ar gyfer Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru (AWMSG) - Oes gennych chi'r sgiliau a'r priodoleddau i gymell rheoli newid? Oes gennych chi wybodaeth am y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a sut y mae'n gweithredu yng Nghymru, ynghyd â diddordeb ynddo a gwybodaeth fanwl am faterion fferyllol sy'n effeithio ar gleifion?

Os felly, fe hoffem glywed oddi wrthyich. Gyda'r gallu i siapio'r agenda rheoli meddyginiaethau yng Nghymru, byddwch yn chwarae rhan allweddol wrth weithredu strategaeth bresgripsiynu AWMSG, a rhoi cyfeiriad strategol i'r GIG yng Nghymru a phob un o'r rhanddeiliaid allweddol.

Byddwch hefyd yn datblygu darpariaeth Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC) sy'n helpu'r Pwyllgor a GIG Cymru i gyflawni eu hamcanion strategol.

Mae Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru, a sefydlwyd yn 2002, yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru mewn modd effeithiol, effeithlon a thryloyw ar bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau.

Mae rôl AWMSG yn newid oherwydd cyflwyniad cynllun gwirfoddol newydd ar draws y DU ar gyfer prisio a defnyddio meddyginiaethau wedi'u brandio, sy'n disodli'r Cynllun Rheoleiddio Prisiau Fferyllol. Dan y trefniant newydd, ceir ymrwymiad y bydd NICE yn cynyddu ei allu i werthuso er mwyn gwerthuso'r holl sylweddau gweithredol newydd ac unrhyw estyniadau sylweddol i awdurdodiad marchnata. Mae'r cytundeb yn ymrwymo NICE i gyflawni hyn erbyn mis Ebrill 2020.

Bydd hyn yn effeithio ar rôl Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru yn y dyfodol. Felly mae Llywodraeth Cymru wedi penodi Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cymru i gynnal adolygiad i weld a oes angen newid cydbwysedd gwaith y Grŵp a'i drefniadau cefnogi o fewn AWTTC. Byddai'r pwyslais yn symud o werthuso meddyginiaethau i gynyddu cefnogaeth ar gyfer ymdrechion GIG Cymru i wella canlyniadau cysylltiedig â meddyginiaethau.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **13 Mai 2019**.

Ni fyddwn yn ystyried ffurflenni cais a ddaw i law wedi'r dyddiad hwn. Disgwylir y bydd y cyfweiliadau yn cael eu cynnal ym mis Mehefin.

I gael rhagor o fanylion ac i wneud cais ewch i <https://beta.llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus> neu i gyflwyno ymholiad, e-bostiwch [publicappointments@gov.wales](mailto:publicappointments@gov.wales)

Mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo cyfle cyfartal a'i ymgorffori ym mhob agwedd ar ei gwaith, gan gynnwys penodiadau i gyrff cyhoeddus. Croesewir ac anogir ceisiadau gan bob grŵp ac rydym yn sicrhau na fydd unrhyw ymgeisydd cymwys am swydd gyhoeddus yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail oed, anabledd, rhyw, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, aillbennu rhywedd, hil, crefydd neu ymlyniad crefyddol, neu feichiogrwydd a mamolaeth. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn cael eu parchu, a phenodir ar sail teilyngdod.

I gael fersiwn print bras, Braille neu sain o'r hysbyseb hon, ffoniwch 03000 255454.



**The Commissioner for  
Public Appointments**